Hybu Cig Cymru
Meat Promotion Wales


# Bwletin y Farchnad HCC

Hydref 2018

Yn ôl ystadegau gan Defra, roedd nifer y gwartheg dethol a laddwyd yn ystod naw mis cyntaf 2018 yn debyg i'r nifer yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Fodd bynnag, roedd cyfanswm yr ŵyn dethol a laddwyd eleni bron 4% yn is nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau hyn.

## Gwartheg


Yn ystod mis Medi lladdwyd 158,100 o wartheg dethol yn lladd-dai'r DU, sef 2.5% yn llai nag ym mis Medi'r llynedd a 1.2% yn llai nag ym mis Awst. Roedd ychydig o wahaniaeth yn y niferoedd yn y categorïau gwahanol o wartheg dethol o'u cymharu a mis Medi 2017; lladdwyd 6.1% a 2.4% yn llai o ran eu trefn o fustych a theirw ifainc, ond cafwyd cynnydd o 2.6% yn nifer yr heffrod. Yn ystod naw mis cyntaf eleni, roedd holl drwybwn y gwartheg dethol yn lladd-dai'r DU yn 1,473,300 o anifeiliaid, sef dim ond 600 yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, a 0.1% yn llai nag yn 2016. Mae'r pwysau cyfartalog ar gyfer carcasau gwartheg dethol hyd yma eleni yn 351kg, sef 0.2% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Gwelwyd y newid mwyaf o ran pwysau yn y teirw ifainc; cafwyd cynnydd o bron 8kg er y llynedd, a phwysau cyfartalog o 336kg.




Cafodd 497,500 o wartheg llawn dwf a theirw eu lladd yn y DU yn ystod naw mis cyntaf eleni, sef gostyngiad o saith y cant mewn cymhariaeth â 2017. Yn dilyn prisiau da am fuchod difa yn ystod misoedd Mai a Mehefin, roedd trwybwn y gwartheg llawn dwf bron 19% yn uwch nag ym mis Gorffennaf 2017. Cafwyd cynnydd hefyd, o 3.5%, ym mis Medi mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol y llynedd. Mae'n debygol taw'r rheswm am hyn oedd bod cynhyrchwyr yn awyddus i gael gwared ar stoc anghynhyrchiol wrth iddyn nhw gynllunio ar gyfer y misoedd nesaf pan mae disgwyl prinder porthiant oherwydd effaith y tywydd ar gnydau yn gynharach eleni. Cynhyrchwyd 1.7% yn fwy o gig eidion a chig llo (cyfanswm o 678.61 tunnell) hyd yma eleni nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.


## Defaid

Yn ystod naw mis cyntaf eleni lladdwyd 9.10 miliwn o ŵyn dethol yn lladd-dai'r DU. Mae hyn yn 3.6% yn is na'r 9.44 miliwn a gofnodwyd ar gyfer y cyfnod cyfatebol yn 2017. Rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2018, pan gafwyd cynnydd sylweddol yn y prisiau, lladdwyd bron 8% yn fwy nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Yn dilyn cyfnod o wyna anodd oherwydd y tywydd oer a gwlyb, bu'n rhaid i gynhyrchwyr wynebu cyfnod hir o dywydd poeth a sych. Cafodd hyn effaith andwyol ar dwf y glaswellt. O ganlyniad, cymerodd yn hwy i besgi ŵyn, a golygodd hynny fod ŵyn tymor newydd yn barod yn hwyrach nag arfer. Rhwng Ebrill a Mehefin, roedd bron 30% yn llai na'r llynedd o ŵyn tymor newydd ar werth yn y marchnadoedd da byw ac roedd y niferoedd yn y lladd-dai hefyd yn 15% yn is.




Lladdwyd 1,108,700 o ŵyn dethol yn lladd-dai'r DU yn ystod mis Medi, sef 12.2% yn llai nag ym mis Awst, a 9.5% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Lladdwyd bron 1.3 miliwn o ŵyn dethol yn ystod mis Awst, sef 2.8% yn fwy nag yn y mis cyfatebol y llynedd. Dyma'r tro cyntaf i hynny ddigwydd er mis Mawrth, ac roedd y cyfanswm yn uwch nag a fu mewn unrhyw fis er mis Rhagfyr 2017. Y rhesymau tebygol am hyn oedd bod yr ŵyn tymor newydd yn cyrraedd eu pwysau targed ac am fod gŵyl Al-Adha yn cael ei chynnal ddiwedd Awst. Lladdwyd 1,167,900 o ddefaid llawn dwf yn ystod naw mis cyntaf 2018, sef 0.7% yn llai nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2017. Er bod y niferoedd oddi ar fis Mawrth yn is nag yn y misoedd cyfatebol yn 2017, lladdwyd 13% yn fwy ym mis Awst. Roedd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd yn y DU yn ystod naw mis cyntaf eleni yn 206.1 tunnell, sef gostyngiad o 4.5% o'i gymharu â 2017. Roedd hynny am fod llai o anifeiliaid wedi cael eu lladd a hefyd am fod y carcasau'n ysgafnach (gostyngiad o 0.5% i 19.4kg).


# Gwartheg




Drwyddi draw, roedd prisiau gwartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref yn is nag oedden nhw yn y cyfnod cyfatebol y llynedd.

**Prisiau'r farchnad yng Nghymru a Lloegr**; roedd y pris cyfartalog ar gyfer gwartheg dethol yn 186.7c/kg yn yr wythnos ddiweddaraf yn diweddu 20 Hydref, sef 1.0c yn uwch nag yn yr wythnos flaenorol a 9.9c yn is nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn ynghynt. Yn dilyn adroddiadau fod y gwahaniaeth yn y pris eleni o'i gymharu â 2017 wedi lleihau yn ystod yr wythnosau diwethaf, dywedwyd bod pris y farchnad ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 06 Hydref yn uwch nag oedd yn 2017 - y tro cyntaf i hyn ddigwydd mewn 10 wythnos. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 20 Hydref, cafwyd gostyngiad o 2.6% i 175.4c/kg ym mhrisiau teirw ifainc. Mae'n debygol fod y cynnydd yn y nifer a werthwyd yn y marchnadoedd da byw wedi dylanwadu ar hyn. Fodd bynnag, cafwyd gwell prisiau nag yn yr wythnos flaenorol am fustych a heffrod, sef cynnydd o 1.8% i 182.8c/kg am fustych a 1.2% i 198.5c/kg am heffrod.


**Prisiau gwartheg dethol ym marchnadoedd da byw Cymru a Lloegr**





**Prisiau pwysau marw yng Nghymru a Lloegr**; yn yr wythnos yn diweddu 20 Hydref, gostyngodd y pris pwysau marw cyfartalog am fustych yng Nghymru a Lloegr 1.9c i 360.2c/kg, a chafwyd gostyngiad o 1.9c i 360.2c/kg ym mhrisiau heffrod. Cafwyd cynnydd o 3.7c (1.1%) i 341.5c/kg ym mhrisiau teirw ifainc, mewn cymhariaeth â'r wythnos flaenorol. Er bod y pris cyfartalog ar gyfer bustych yn is nag yn yr wythnos flaenorol, mewn gwirionedd, mae'r ffigyrau'n uwch nag oedden nhw yn ystod y cyfnod cyfatebol y llynedd. O edrych ar y gwahaniaeth rhwng prisiau eleni a'r llynedd, y pris pwysau marw cyfartalog ar gyfer yr wythnos yn diweddu 20 Hydref oedd y cynnydd mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall er diwedd mis Mehefin (5.6c yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd).

**Nifer yr holl wartheg a laddwyd mewn lladd-dai yn y DU**; lladdwyd 216,600 ym mis Medi, sef 0.7% yn fwy nag ym mis Awst. Gan barhau â'r duedd ddiweddar, ni chafodd y cynnydd hwn ei ddylanwadu gan drwybwn y gwartheg dethol oherwydd gostyngodd y niferoedd 1.2% i 158,100 o anifeiliaid yn ystod mis Medi. Roedd y gostyngiad mwyaf o'r naill fis i'r llall ymhlith teirw ifainc; lladdwyd 22.6% yn llai nag ym mis Awst, ond cafwyd cynnydd o bron 4%, i 81,600 o anifeiliaid, yn niferoedd y bustych. Mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol y llynedd, lladdwyd 2.5% yn llai o wartheg dethol, ac roedd y gostyngiad mwyaf, sef 6.1%, yn nifer y bustych yn ystod mis Medi. Roedd gostyngiad hefyd (2.4%) yn niferoedd y teirw ifainc, mewn cymhariaeth â mis Medi 2017, ond cafwyd cynnydd o 2.6% (1,500 o anifeiliaid) yn niferoedd yr heffrod.


**Lladd gwartheg dethol yn y DG**




Y prif reswm am y cynnydd bychan yng nghyfanswm y trwybynnau gwartheg oedd bod 6.9% yn fwy o wartheg (cyfanswm o 56,800 o anifeiliaid) wedi eu lladd yn ystod mis Medi. Bu ffermwyr yn difa buchod anghynhyrchiol er mwyn lliniaru effaith prinder porthiant yn ystod y misoedd nesaf. O ystyried y naw mis cyntaf, roedd cyfanswm y trwybynnau gwartheg yn 7.2% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2017.




# Defaid





Roedd prisiau ŵyn dethol ym marchnadoedd da byw Cymru yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref yn debyg i'r hyn oedden nhw'r llynedd. Yn ystod naw mis cyntaf eleni, roedd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd bron 5% yn is nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Y rheswm tebygol am hyn oedd bod trwybynnau'r ŵyn dethol yn 3.6% yn is nag yn 2017.

**Prisiau'r farchnad yng Nghymru**; Roedd y dyfynbris ansawdd safonol (SQQ) ar gyfer ŵyn tymor newydd mewn marchnadoedd da byw yn yr wythnos yn diweddu 20 Hydref yn 165.7c/kg, sef 1.1c yn is nag yn yr wythnos flaenorol, ond 3.3c yn uwch nad yn y cyfnod cyfatebol y llynedd. Mae prisiau pwysau byw yn dilyn y patrwm sydd i'w ddisgwyl ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Er bod yr holl drwybwn o ŵyn tymor newydd mewn marchnadoedd da byw yn ystod mis Medi yn debyg i'r llynedd (0.2% yn llai nag ym mis Medi 2017), gwerthwyd bron 19% yn llai o ŵyn tymor newydd rhwng 05 Mai a 20 Hydref eleni nag yn ystod y cyfnod cyfatebol yn 2017. Yn ystod yr wythnos yn diweddu 20 Hydref, roedd y trwybynnau yng Nghymru yn 25.2% yn is nag oedden nhw yn yr wythnos gyfatebol y llynedd. Efallai fod y ffaith nad yw prisiau wedi cynyddu'n sylweddol er bod nifer yr ŵyn wedi gostwng yn sylweddol yn y marchnadoedd da byw yn adlewyrchu llai o alw. Gwelwyd gostyngiad cyson ym mhrisiau mamogiaid difa mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru ym mis Medi, ond cafwyd ychydig o gynnydd yn ystod yr wythnos ddiweddaraf (sef yr wythnos yn diweddu 20 Hydref) pan oedd y pris cyfartalog yn £38.60 yr anifail.





**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; roedd prisiau ŵyn yn 388.9c/kg yn yr wythnos yn diweddu 20 Hydref, sef 0.5c yn llai nag yn yr wythnos flaenorol, ond 2.5c yn uwch nag yn yr wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach. Mae prisiau ŵyn pwysau marw fwy neu lai yn debyg i'r prisiau yn y marchnadoedd da byw; cafwyd gostyngiad graddol yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth i'r cyflenwad ddringo'n uwch na'r galw. Er taw dyma'r pris pwysau marw isaf a gofnodwyd hyd yn hyn eleni, mae'r prisiau'n uwch nag yn 2017 (386.4c/kg) ac maen nhw'n debyg i'r hyn oedden nhw (389.8c/kg) yn yr wythnos gyfatebol bryd hynny.

**Nifer y defaid a laddwyd yn lladd-dai'r DU**; lladdwyd 1,108,700 o ŵyn dethol yn ystod mis Medi, sef 9.5% (115,800) yn llai na'r llynedd, a 12.2% yn llai nag ym mis Awst. 2017, sef bron 1.3 miliwn o anifeiliaid. Mae adroddiadau yn awgrymu fod yr ŵyn a oedd yn cael trafferth i besgi oherwydd y tywydd sych wedi dechrau'n raddol i gyrraedd y pwysau targed. Mae'n debygol taw hyn achosodd y ffigyrau trwybwn uchel yn ystod mis Awst.





Lladdwyd llai o dipyn o famogiaid a hyrddod difa yn lladd-dai'r DU mewn cymhariaeth â mis Awst. Roedd y cyfanswm yn 129,000 o anifeiliaid ar gyfer mis Medi (30% yn llai nag yn y mis blaenorol). Doedd y niferoedd is yn ystod mis Medi ddim yn annisgwyl oherwydd ym mis Awst cafwyd y trwybwn uchaf o famogiaid a hyrddod difa ers bron ddwy flynedd. Roedd y trwybwn ym mis Awst yn 165,300 o anifeiliaid. Mae'n debygol taw'r rheswm am y trwybwn uwch oedd am fod cynhyrchwyr yn paratoi ar gyfer y gaeaf ac yn meddwl am faint o famogiaid i'w cadw ar gyfer hwrdda. Roedd cyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd ym mis Medi yn 24,700 tunnell, sef 13.3% yn llai nag ym mis Awst a 8.3% yn llai nag ar gyfer yr un mis flwyddyn yn gynharach. Am fod llai o ŵyn dethol a mamogiaid/hyrddod difa wedi eu lladd yn ystod naw mis cyntaf eleni, cafwyd gostyngiad o 4.5% yng nghyfanswm y cig defaid a gynhyrchwyd mewn cymhariaeth â'r cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Mae adroddiadau gan y diwydiant yn awgrymu fod 2% yn llai o ŵyn na'r llynedd wedi cael eu geni eleni, ac felly mae'n bosibl na fydd y trwybwn yn cynyddu'n sylweddol

# Moch





Yn ystod misoedd Awst a Medi, cafwyd y bwlch mwyaf o'r naill flwyddyn i'r llall ym mhrisiau moch oherwydd cynnydd yn y cyflenwad. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae'r bwlch wedi cau rhywfaint, er bod prisiau'n dal i fod yn is na'r llynedd.

**Prisiau pwysau marw ym Mhrydain**; Roedd prisiau'r holl foch (manyleb yr UE) yn 149.4c/kg yn yr wythnos yn diweddu 13 Hydref, sef 0.6c (0.4%) yn is nag yn yr wythnos flaenorol. O'i gymharu â'r wythnos gyfatebol flwyddyn yn gynharach, mae'r pris ar hyn o bryd yn 11.6c (7.2%) yn is. Mae'r bwlch yn y pris rhwng eleni a'r llynedd wedi bod yn cynyddu'n gyson ers dechrau'r flwyddyn, a chafwyd y bwlch mwyaf ddiwedd mis Awst. Ers dechrau Medi, mae'r bwlch wedi bod yn cau unwaith eto ac erbyn hyn mae'r debyg i'r hyn ydoedd yn ystod mis Mai.




**Prisiau perchyll ym Mhrydain**; roedd y pris cyfartalog am berchyll 30kg yn £52.16 y mochyn yn yr wythnos yn diweddu 13 Hydref, sef £5.52 (11.8%) yn fwy nag yn yr wythnos flaenorol. Mae hyn yn ostyngiad o 10.5% mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu'r duedd bresennol ar gyfer moch wedi pesgi. Yn yr wythnos yn diweddu 13 Hydref, cafwyd cynnydd o £1.48 (4.1%) i £37.55 y mochyn ym mhris perchyll 7kg o'i gymharu ag wythnos yn gynharach – sef 17.4% yn is na blwyddyn yn ôl.

**Yr holl foch a laddwyd yn lladd-dai'r DU**; lladdwyd cyfanswm o 864,400 ym mis Medi, sef 10.8% yn llai nag yn y mis blaenorol. Mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach, mae hyn yn ostyngiad o 3%. Er bod y ffigyrau'n is nag ar gyfer mis Medi'r llynedd, lladdwyd 3.4% yn fwy o foch yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn nag yn y cyfnod cyfatebol flwyddyn yn gynharach. Golygydd y cynnydd mewn trwybynnau fod 3.6% yn fwy o gig moch wedi ei gynhyrchu yn ystod naw cyntaf eleni, sef 687,300 tunnell yn y DU. Lladdwyd 843,500 o foch heb fagu yn lladd-dai'r DU ym mis Medi, sef 27,100 (3.1%) yn llai nag ym mis Medi'r llynedd a 10.7% yn llai nag ym mis Awst. Mewn cyferbyniaeth, cafwyd cynnydd o 3.2% yn nhrwybynnau hychod a baeddod mewn cymhariaeth â'r mis cyfatebol flwyddyn yn gynharach.





Os hoffech lawrlwytho'r fersiwn llawn o Fwletin y Farchnad, ewch i .hybucig.cymru
Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch a Hybu Cig Cymru ar 01970 625050 neu e-bostiwch info@hccmpw.org.uk